



GRASSLAND DEVELOPMENT CENTRE CANOLFAN DATBLYGU TIR GLAS



Institute of Grassland and Environmental Research / Sefydliad Ymchwil Tir Glas ar Amgylchedd
Plas Gogerddan, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3EB Tel: 01970 823026 Fax: 01970 828357
Project Manager: Heather McCalman

W214.01

Pesgi ŵyn ar Sicori

Y Sicori gorau i ddefnyddio ar gyfer pesgi wyn yw'r llysieuyn prif wreiddyn lluosflwydd, gyda chynnyrch uchel ac ansawdd maethol da sy'n rhoi gwell cyfradd tyfiant i ŵyn na rhygwellt parhaol, a gall leihau costau porthiant gaeaf. Mae'n cyd-fynd yn dda gyda glaswellt fel porthiant sy'n cael ei dyfu gartref am gost isel, ac sy'n ymestyn y tymor pori. Ar ffermydd cymysg, mewn systemau organig neu fewnbwn isel, mae Sicori yn gallu cynnig egwyl fuddiol yn y cylchdro cynydu. Mae ganddo statws mwynau uchel ac mae ei nodweddion gwrthlynghyrol yn gallu helpu i reoli llyngyr.

Hau a Sefydlu

Dewisiwch math o Sicori lluosflwydd a gydnabyddir ac a dyfir fel cnwd porthiant e.e. Puna II. Mae eisiau osgoi mathau unflwydd o sicori.

Mae Sicori yn gnwd sy'n gallu dioddef sychder ac yn addas i dir sych – sy'n lleihau'r perygl o'r cnwd yn mynd yn lleidiog ac yn ddfilas mewn cyfnodau sych.

Heuwch rhwng Mai a Mehefin.

Driliwch, neu hau â llaw i wely hadau cadarn ar ddyfnder o 10mm. Os yn drilio'n uniongyrchol – peidiwch â hau yn ddyfnach na 10mm.

Cyfraddau hau:

Cnwd pur ar ei ben ei hun - 2 kg /erw.

Cymysgfa gyda rhygwellt parhaol, meillion gwyn a pherlysiâu, heuwch 0.5kg/erw.

Sicrhewch bod y mynegai pridd i Ffosffad a Photasiwm yn 2 gyda pH 6. Gall peledau malwod du wella sefydliad y cnwd

Mae Sicori yn ymateb i wrtaith Nitrogen.

Chwalwch 45kg N/ha ar ddechrau'r gwanwyn gan ei chwalu'n ysgafn ar ôl pori, neu heuwch gyda meillion gwyn dail canolig neu fawr (2 kg /erw) i ddarparu N.

Defnyddio

Unwaith fo'r cnwd wedi sefydlu gellir ei bori pan fydd tua 8 wythnos.

I leihau gwastraff, dylid ei bori'n galed, pori sribyn gyda ffens drydan neu bori cylchol mewn padogau.

Dylid mynd ag ŵyn i'r cnwd pan fydd yn 25-30cm o uchder. Dylai graddfa'r stoc ar y cnwd fedru pori'r cnwd i lawr i 5cm yn gyflym.

Dylid cylchdroi neu roi ffens yn y cefn i alluogi ail-dyfiant. Dylai hyd y cylchdroi fod yn 3 i 6 wythnos.

Bydd pori parhaus neu bori sribyn heb ffens gefn, yn lleihau perfformiad anifeiliaid ac ansawdd y cnwd.

Mae cynydu aeddfed dros 30cm yn llai blasus ac o ansawdd gwaelach.

Yn y flwyddyn gyntaf, prin fydd sicori yn blodeuo – yn y blynyddoedd wedyn dylid rheoli'r blodeuo drwy bori agos neu frig dorri.

Dylai'r pori yn ystod y gaeaf fod yn ysgafn i osgoi niwed i gorun y planhigion.

Dylid pori'r tyfiant sydd wedi cronni i lawr i 5cm cyn y gaeaf.

Dylai cnwd da o sicori gefnogi 20 o ŵyn/erw am rhwng 30 a 40 diwrnod

O'r gwerth maethol uchel disgwylir graddfa tyfiant ŵyn o dros 250 gram / dydd. Mae'r gwerth cynnwys mwynol yn dangos statws mwynau uchel

Dadansoddiad maeth nodweddiadol sicori pur

Deunydd Sych	Protein Crai	Treuliadwyedd	Olew (Asid Hydrolaidd)	Cynnwys mwynol	Egni Metaboladwy
8%	25.4%	66.1%	4.6%	15.2%	10.4